
# Y Peth'ma

Roderick Hunt    Alex Brychta

Coeden Ddarllen Rhydychen



DRAKE





Roedd Mam a Dad yn paentio'r gegin.
Roedd Dad yn paentio'r nenfwd.
Roedd Mam yn paentio'r waliau.



Cododd Mam yr hen garped.
‘Mae’r waliau’n edrych yn dda,’ meddai hi.
‘Ond mae hyn yn edrych yn flêr.’



Edrychodd Dad ar y llawr.
‘Rydyn ni angen carped newydd,’
meddai Cad.



Cafodd Mam hyd i ddrws yn y llawr.
Tynnodd o i fyny.



Edrychodd pawb.
'Seler ydi hi,' meddai Dad.



Aeth Mam i'r seler.

'Mae'n edrych yn fawr,' meddai hi.



Edrychodd y plant i mewn.

'Mae'n edrych yn dywyll,' meddai Cad.

'Ac yn frawychus,' meddai Dids.



Aeth Dad i nôl lamp.
Aethon nhw i'r seler.

Cafodd Onw hyd i hen gynfas.
'Ysbryd ydw i,' meddai.
'Whoooooaa . . . !'



‘Edrychwch ar hwn,’ meddai Onw.
‘Be ydi o?’ gofynnodd Dids.


‘Wn i ddim,’ meddai Mam.
‘Peth’ma ydi o,’ meddai Dad.



Daeth Wilff a Wilma i chwarae.
Edrychon nhw ar y peth'ma.
'Be ydi o?' gofynnodd Wilma.




'Peth'ma ydi o,' meddai Dids.
'Cawson ni hyd iddo yn y seler.'




Daeth dau ddyn at y tŷ.
Daethon nhw mewn lori.
Aethon nhw â'r hen bethau i ffwrdd.



Edrychodd un dyn ar y peth'ma.
'Be ydi o?' gofynnodd.
'Peth'ma ydi o,' meddai Dad.




Cymerodd y ddau ddyn y peth'ma.
Rhoddon nhw fo yn y lori.
Stopiodd car.




Neidiodd gwraig allan a
galw ar y dynion.
'Stopiwch!' meddai hi.



Roedd y wraig eisiau'r peth'ma.
Roedd hi ei eisiau ar gyfer amgueddfa.
Rhoddodd y dynion o yn y car.



Rhoddodd y wraig arian i Dad.
'Dowch i'r amgueddfa,' meddai hi,
'a dowch â'r plant.'




Roedd y peth'ma yn yr amgueddfa.
Aeth Mam a Dad i'w weld.

Fe aethon nhw â Dids, Cad ac Onw.
'Felly dyna be ydi o,' meddai Dad.



Roedd gan Mam a Dad syrpreis.
Roedd ar gyfer y plant.
'Be ydi o?' gofynnodd Cad.



'Peth'ma ydi o,' meddai Dad.
Tynnodd y gynfas i ffwrdd.



Bwrdd snwcer oedd y peth'ma.

'Mae'n wych!' medden nhw.

Argraffwyd yng Nghymru

# Y Peth'ma

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 5
Rhagor o
Storïau
Pecyn A

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**

**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o Ddim yn Deg!
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999

ISBN 0-86174-159-5

ISBN 0 86 174159 5

DRAKE

9 780861 741595